

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG AC IEUENCTID
30 IONAWR 2020

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuencid Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Iau 30^{ain} Ionawr 2020.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Healey (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Janet Axworthy, Geoff Collett, Bob Connah, Paul Cunningham, Andy Dunbobbin, Gladys Healey, Patrick Heesom, Kevin Hughes, Tudor Jones, Dave Mackie, Ian Smith, Martin White a David Williams

AELODAU CYFETHOLEDIG: Lynn Bartlett, David Hytch a Rebecca Stark

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd Sian Braun, Wendy White, Arweinydd y Cyngor a Vicky Barlow

CYFRANWYR: Prif Swyddog (Addysg ac Ieuencid), Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Chynnydd) ar gyfer cofnod rhif 41 a 42 a John Grant (Uwch Ymgynghorydd Dysgu, Gwasanaethau Cynhwysol) cofnod rhif 42.

HEFYD YN BRESENNOL: Rheolwr y Gwasanaethau Democraidaidd a Swyddog Cymorth y Gwasanaethau Democraidaidd

39. DATGAN CYSYLLTIAD

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o gysylltiad.

40. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2019.

Roedd gan Mr David Hytch ddau sylw i'w gwneud am y cofnodion. Yn gyntaf, ar dudalen 4 cyfeiriwyd ato fel y Cynghorydd Hytch ac yn ail, ar dudalen 8 gofynnodd am gael newid ei sylw ynglŷn â'r graff i gynnwys y geiriau canlynol: "Cyfeiriodd Mr Hytch at y graff a oedd, yn ei farn ef, yn agored i gael ei gamddehongli".

Cynigiodd y Cynghorydd Gladys Healey, yn amodol ar y newidiadau a restrir uchod, y dylid cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Martin White.

PENDERFYNWYD:

Yn amodol ar y newidiadau a restrir uchod, bod y cofnodion yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

41. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN GWEITHREDU

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a oedd wedi'i diweddaru ers y cyfarfod diwethaf, ac a oedd ynghlwm yn Atodiad 1. Roedd yr holl gamau gweithredu yn codi o'r cyfarfod blaenorol ar 20^{fed} Rhagfyr wedi'u cwblhau.

Cyflwynodd y Cynghorydd Kevin Hughes adroddiad am gyfarfod diweddar y gwnaeth gymryd rhan ynddo yng Nghaerdydd yn dilyn ystyriaeth o'i rybudd o gynnig yn gofyn am gymorth i gyflwyno Hyfforddiant Cymorth Cyntaf mewn Ysgolion gyda sefydliadau eraill fel y Groes Goch yn bresennol. Sir y Fflint oedd yr unig awdurdod lleol a oedd wedi anfon cynrychiolydd. Cafodd y Grŵp ei sefydlu i sicrhau bod Hyfforddiant Cymorth Cyntaf ac Achub Bywyd ar gael mewn ysgolion a'r gobaith oedd y byddai hyfforddiant adfywio'r galon a'r ysgyfaint (CPR) a Diffibriliwr hefyd yn dod yn orfodol. Dywedodd y Cynghorydd David Williams fod hyfforddiant Cymorth Cyntaf eisoes yn rhan o sesiynau ABCh yn ei ysgol ef, a dywedodd ei fod yn hapus i roi gwybodaeth i aelodau am gynnwys yr hyfforddiant hwn yn ei ysgol.

Gofynnodd y Cynghorydd David Mackie pam roedd yr eitem ar Dlodi Plant wedi cael ei symud i'r cylch nesaf. Mewn ymateb, cyflwynodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) ddiweddariad ac esboniodd fod y Strategaeth ddrafft yn dal i gael ei llunio ac y byddai'n cael ei chyflwyno gerbron y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth 2020.

Cynigiwyd yr argymhellion yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Dave Mackie a'u heilio gan y Cynghorydd Janet Axworthy.

PENDERFYNWYD:

- (a) Cymeradwyo'r fersiwn ddiwygiedig o Raglen Gwaith i'r Dyfodol;
- (b) Bod yr Hwylusydd, mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, fel y bo'r angen; a
- (c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed i gwblhau'r materion sy'n weddill.

42. DEDDF ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A'R TRIBIWNLYS ADDYSG (CYMRU) 2018

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr ddiweddariad ar Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r Tribiwlnlys Addysg (Cymru) 2018. Byddai'r fframwaith statudol newydd ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn disodli'r ddeddfwriaeth bresennol yn ymdrin ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a Phobl Ifanc ag Anawsterau neu Anableddau Dysgu (AAD) mewn addysg a hyfforddiant ôl-16. Roedd yr amserlen ar gyfer rhoi'r Ddeddf ar waith bellach wedi symud i fis Medi 2021 er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i weithio drwy'r holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y broses ymgynghori.

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr adroddiad ar gyfarfod o'r Fforwm ADY a gynhaliwyd y diwrnod blaenorol a oedd yn trafod y swydd-ddisgrifiad ar gyfer swydd Cydlynedd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) mewn ysgolion.

Cadarnhaodd fod Jan Williams wedi cael ei phenodi dros dro fel Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynnyddoedd Cynnar a bod y Bwrdd Iechyd yn edrych ar y sefyllfa ariannu er mwyn recriwtio ar gyfer swydd Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig. Cyfeiriodd at Gynllun Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol Sir y Fflint a'r gwaith oedd yn cael ei wneud i ddeall 'beth oedd darpariaeth gyffredinol'. Roedd ysgolion yn gweithio mewn clystyrau yn Sir y Fflint ac yn rhanbarthol, gyda chydweithwyr Addysg Bellach a'r Bwrdd Iechyd hefyd yn rhan o'r trafodaethau hyn. Cyfeiriodd hefyd at amserlen Llywodraeth Cymru, y goblygiadau o ran cost i'r Cyngor a'r angen am gyngor cyfreithiol clir i ddeall sut i ddehongli'r Ddeddf er mwyn sicrhau y byddai'r disgyblion sydd â'r angen mwyaf yn elwa ar hyn. O ran addysg ôl-16, dywedodd fod y sefyllfa yn aneglur ar hyn o bryd a bod angen eglurder ar y ddarpariaeth gyffredinol a'r fecanwaith ar gyfer datganoli'r arian ar gyfer darpariaeth arbenigol ôl-16.

Roedd y Cadeirydd yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi gwrandao ar bryderon yr awdurdodau lleol.

Mynegodd y Cynghorydd Mackie ei bryder nad oedd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r cymorth TG sydd ei angen ar unwaith a mynegodd ei bryder ynghylch yr amserlen 2-3 blynedd bosibl ar gyfer dod o hyd i'r cymorth hwn a'i roi ar waith. Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniad ffurfiol eto. Roedd yr astudiaeth ddichonoldeb a luniwyd gan ranbarth Gogledd Cymru wedi cael ei hystyried gan Lywodraeth Cymru ac roedd papur yn cael ei ysgrifennu i'w gyflwyno gerbron yr Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg i'w ystyried; byddai cymhlethdod y system ofynnol yn achosi'r oedi posibl.

Gofynnodd Mrs Rebecca Stark gwestiynau am y swydd-ddisgrifiad, gan godi pryderon am y llwyth gwaith, yr oedi o ran y ddarpariaeth cymorth TG, y diffiniad o ddarpariaeth gyffredinol a gofynnodd a fyddai hyn yn aros yn rhanbarthol neu a fyddai'n dod yn genedlaethol. Hefyd, gofynnodd a oedd y rhaglen hyfforddi staff yn ddigon cadarn i sicrhau ei bod yn rhoi sylw i anghenion disgyblion. Mewn ymateb, dywedodd yr Uwch Reolwr fod Llywodraeth Cymru yn ystyried hyn fel gweithred niwtral o ran cost ac ni chafwyd unrhyw awgrym a fyddai arian ychwanegol yn cael ei ddarparu i dalu am y cyfrifoldebau ychwanegol a fyddai'n dod yn sgil y Ddeddf. Roedd arian ar gael drwy'r Grant Trawsnewid ADY i gefnogi gwaith paratoi cyn gweithredu ym mis Medi 2021 ac roedd hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gwaith clystyrau a hyfforddiant mewnol; roedd pwysau'r costau posibl wrth roi hyn ar waith mewn ysgolion yn fater a oedd wedi cael ei godi fel risg ar lefel gorfforaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi arian grant ADY ychwanegol o £7.2m ar draws holl awdurdodau lleol Cymru ac roeddem yn aros am fanylion pellach ynghlŷn â'r swm a thelerau ac amodau'r grant.

Ychwanegodd Mrs Stark fod pryderon difrifol, yn enwedig yn ymwneud â chyfraith achosion, a gofynnodd beth oedd safbwynt yr awdurdod ar y mater hwn. Mewn ymateb, dywedodd yr Uwch Reolwr y gallai'r diffyg gwybodaeth fanwl gan Lywodraeth Cymru am ddarpariaeth gyffredinol olygu bod yr ysgolion a'r Cyngor yn wynebu risg mewn Tribiwnlysoedd ac roedd yn bosibl y byddai angen cymorth cyfreithiol arbenigol ychwanegol ar ôl i'r diwygiadau gael eu rhoi ar waith.

Roedd Mr David Hytch o'r farn y gallai achosion iechyd meddwl gael eu cynnwys yn y Ddeddf gan effeithio ar bresenoldeb disgyblion a gofynnodd am eglurder ar rolau a chapasiti swyddogion ADY. Cytunodd yr Uwch Reolwr, a chyflwynodd adroddiad ar gyfarfodydd hanner tymhorol rhanbarthol lle'r oedd cydweithwyr iechyd wedi bod yn bresennol yn achlysurol yn unig. Dywedodd y byddai gweithwyr proffesiynol iechyd yn gyfrifol am adnabod unrhyw ddarpariaeth fyddai ei hangen mewn ymateb i anghenion iechyd ac na allai'r Tribiwnlys gyfeirio'r Bwrdd Iechyd i gynnwys darpariaeth. Hefyd, dywedodd y byddai'n rhaid i'r rhieni ddefnyddio proses gwyno'r GIG os oedd unrhyw anghytundeb ynglŷn â gofynion, ac roedd yn bosibl y byddai'n rhaid i'r Cyngor gynnig y ddarpariaeth nes y byddai'r anghydfod yn cael ei ddatrys. O ran addysg ôl-16, roedd Llywodraeth Cymru yn awgrymu darpariaeth wedi'i thargedu am hyd at 2 flynedd gydag awdurdodau lleol yn gyfrifol am gomisiynu ac ariannu hyn. Mewn ymateb i'r ail bwynt, byddai gan y Swyddogion ADY rôl ymgynghorol a byddent yn rhoi cymorth i rieni, athrawon a gweithwyr allweddol i sicrhau bod yr ysgolion wedi paratoi.

Cyfeiriodd y Cyngorydd Tudor Jones at bwynt 2.07 yn yr adroddiad a gofynnodd pwy fyddai'n gyfrifol am gadw'r data a darparu cymorth i bobl ifanc yn y ddalfa, plant oedd wedi dewis cael eu haddysg yn y cartref, a phlant teithwyr. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr mai cyfrifoldeb yr awdurdod fyddai adnabod a oedd angen cymorth ADY ar unigolyn ifanc, gan ddatblygu cynllun ar gyfer yr unigolyn hwnnw. Ni fyddai'r awdurdod yn gyfrifol am gynnig darpariaeth i bobl ifanc yn y ddalfa. O ran pobl ifanc sy'n dewis cael eu haddysg yn y cartref, nid oedd arian yn y cyllidebau presennol i gynnal hyn ond gallai'r sefyllfa newid pan fyddai'r Cod yn cael ei ryddhau. Roedd data am y bobl ifanc hyn yn cael eu casglu'n flynyddol gan awdurdodau lleol a'u darparu i Lywodraeth Cymru. Gofynnodd y Cyngorydd Jones a fyddai angen asesu'r plant hyn hefyd. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr y byddent yn gwybod am rai o'r plant oherwydd eu bod wedi mynychu'r ysgol o bosibl cyn derbyn eu haddysg yn y cartref, ond roedd yn debygol y byddai ganddynt rôl i'w chwarae i gynnal asesiad os nad oedd un wedi'i gynnal. Un anhawster penodol yn ymwneud â'r gymuned teithwyr oedd y ffaith bod teuluoedd yn symud cyn i'r asesiad gael ei gwblhau'n llwyr. Ychwanegodd mai un o fanteision y broses newydd oedd y byddai ysgolion yn penderfynu a oedd angen cymorth ADY yn hytrach nag aros am asesiad, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Awgrymodd y Cyngorydd Hughes y dylai'r pwyllgor ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am esboniad mwy llawn ynglŷn â pham roedd y mater hwn yn cael ei ystyried yn niwtral o ran cost. Cyfeiriodd y Prif Swyddog at y llythyr blaenorol a oedd eisoes wedi'i anfon yn ymdrin â'r mater hwn. Awgrymodd y Cyngorydd Hughes y dylid ysgrifennu llythyr tebyg i ategu'r pryder ac y dylid cynnwys paragraff ychwanegol yn y llythyr yn gofyn am ddiffiniad o ddarpariaeth gyffredinol. Dywedodd yr Uwch Reolwr fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn amharod i wneud hyn ac roedd o'r fan bod disgwyliad y byddai Awdurdodau Lleol ac Ysgolion yn ysgwyddo'r costau. Awgrymodd y Cadeirydd y dylai'r Prif Swyddog ysgrifennu llythyr arall at Lywodraeth Cymru yn gofyn am eglurder ynghylch beth yn union oedd yn gwneud costau yn niwtral, ac yn gofyn am eglurder ynglŷn â diffiniad Llywodraeth Cymru o ddarpariaeth gyffredinol.

Gofynnodd Mrs Stark a fyddai'n bosibl darparu rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r costau i ysgolion hyd yma, hefyd a fyddai'n bosibl cyflwyno rhai rhagamcanion ar sail tystiolaeth gerbron y pwyllgor hwn.

Cynigiwyd yr argymhelliad ychwanegol hwn gan y Cynghorydd Hughes ac fe'i eiliwyd gan Mrs Stark.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi cynnwys yr adroddiad;
- (b) Bod llythyr yn gofyn am eglurder ynglŷn â sut fyddai'r Ddeddf yn niwtral o ran cost a diffiniad o'r term 'darpariaeth gyffredinol' yn cael ei anfon at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn Llywodraeth Cymru; a
- (c) Bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno gerbron y pwyllgor yn dilyn gweithredu'r Ddeddf.

43. PRESENOLDEB MEWN YSGOLION

Yn gyntaf cyflwynodd yr Uwch Reolwr Mr John Grant (Uwch Ymgynghorydd Dysgu – y Gwasanaeth Ymgysylltu, Cynhwysiant a Chynnydd) a amlinellodd ei brofiad i'r pwyllgor. Cafodd ei groesawu gan y Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor.

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr yr adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth am lefelau presenoldeb ar draws ysgolion Sir y Fflint. Nodwyd bod absenoldebau oherwydd salwch yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r absenoldebau a bod lefelau absenoldeb cyson yn dal i fod yn gymharol uchel.

Ychwanegodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu fod sicrhau presenoldeb mewn ysgolion yn anodd gan fod cynnydd wedi bod yn nifer y disgyblion a oedd yn adrodd am broblemau iechyd meddwl ac nad oeddynt yn ymgysylltu â'r ysgol ac roedd cydweithwyr CAMHS yn rhoi cymorth i'r disgyblion hyn. Esboniodd fod y gwasanaeth yn ceisio bod yn fwy hyblyg gan ymateb i anghenion y plant ac y byddai deall yr heriau yn ei gwneud yn bosibl i fwrw ymlaen â chynllun hirdymor. Yna, cyfeiriodd at Gynhadledd Penaethiaid Ysgolion lle'r oedd cydweithwyr wedi trafod a chydnabod y pwysau a oedd yn gysylltiedig. Cyfeiriodd yr Aelodau at Atodiad 1 yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd Mr Hytch at wyliau yn ystod y tymor a gofynnodd a oedd yn gyfreithiol i'w hawdurdodi a pha mor gadarn oedd y ffigyrau, hefyd cwestiynodd ffigyrau presenoldeb y chwarterl a fyddai'n gallu symud o wyrdd i goch petai llawer o ddisgyblion yn dal y ffliw. O ran addysg uwchradd, gofynnodd a oedd ffigyrau absenoldeb yn cynnwys gallu plentyn i ymdopi â'r addysg a ddarparwyd ac a fyddai'r pwysau hwn yn gallu achosi absenoldebau oherwydd iechyd meddwl. Roedd o'r farn nad oedd addasu'r cwricwlwm yn gweithio bob amser, a dywedodd fod angen darparu cymorth i'r haen islaw anghenion arbennig. Hefyd, gofynnodd a oedd gan y Gwasanaeth Iechyd yr adnoddau i gefnogi hyn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hughes at absenoldebau heb eu hawdurdodi ac absenoldebau wedi'u hawdurdodi ar gyfer gwyliau teuluol, a gofynnodd faint o'r rhain oedd yn bobl sy'n aildroseddu? Yn ôl yr hyn roedd yn ei ddeall, roedd canllawiau Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo 10 diwrnod o wyliau a bod gwyliau yn rhatach yn ystod y tymor hyd yn oed os oedd rhieni wedi cynnwys y

gosb ariannol hefyd. Ategodd y Prif Swyddog y sylw hwn drwy ddweud ei fod yn anodd iawn, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, i blant ddal i fyny gyda'u haddysg ond roedd yr achosion o hyn yn digwydd yn amlach mewn ysgolion cynradd nag mewn ysgolion uwchradd. Ychwanegodd yr Uwch Reolwr fod swyddogion yn gweithio gyda Phenaethiaid Ysgolion er mwyn rhoi hyder iddynt herio rheini. Roedd y sefyllfa yn wahanol os oedd plentyn yn absennol yn aml oherwydd salwch ond roedd Penaethiaid bellach yn gofyn i rieni ddarparu tystiolaeth feddygol.

Cytunodd y Prif Swyddog â sylwadau Mr Hytch ar chwarteli ond dywedodd fod hyn yn cyfrif am ganran fach. Hefyd, dywedodd ei bod hi wedi cyfarfod Penaethiaid i drafod cyllidebau ar gyfer pob math o anghenion. Dywedodd yr Uwch Reolwr fod perthynas dda gyda chydweithwyr CAMHS ac roedd pob math o wasanaethau yn cael eu hystyried gan y gwasanaethau iechyd i roi cymorth i ddisgyblion â phroblemau iechyd meddwl.

Cyfeiriodd Mrs Stark at Dabl 5 (Rhesymau dros absenoldebau wedi'u hawdurdodi) ac roedd o'r farn bod rheswm C yn uchel iawn, a gofynnodd a oedd y codau ar goll a pham roedd y lefel salwch wedi gostwng. Mewn ymateb, dywedodd yr Uwch Reolwr y byddai'r gwasanaeth yn edrych ar y data i gael gwell dealltwriaeth am hyn a bod codau C yn cynnwys yr effaith ar iechyd meddwl, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Rhoddodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu y cefndir i'r dull gweithredu a oedd yn cael ei arwain gan y data a dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r holl godau yn y Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan. Roedd Mrs Stark yn pryderu ynglŷn â'r unigolion os oedd hyn yn cael ei yrru gan ystadegau.

Dywedodd y Cynghorydd Jones fod llawer o'r plant sydd ddim yn gallu ymdopi â'r cwricwlwm yn fabanod cynamserol a gofynnodd a fyddai'n bosibl rhoi'r hawl i rieni adael i'w plant ddechrau yn yr ysgol ar ddyddiad disgwylidig eu geni, yn hytrach na'u dyddiad geni, dylai rieni gael yr hawl i ddewis. Atebodd yr Uwch Reolwr, a dywedodd y byddai trafodaethau yn cael eu cynnal mewn rhai achosion gyda rhieni plant a oedd yn ifanc iawn yn eu blwyddyn i hwyluso hyn lle bo'n briodol. Dywedodd fod 'cyfnod' yn hytrach nag 'oedran' yn rhan hanfodol o'r cwricwlwm newydd a ddylai fod yn ddatblygiad cadarnhaol i'r disgyblion hyn a bydd llwyddiant y drefn newydd yn dibynnu ar y ffordd y bydd ysgolion yn ei rhoi ar waith.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Gladys Healey at dudalen 28 a dywedodd nad plant sipsiwn/teithwyr oedd yr unig rai yr oedd angen cymorth arnynt er mwyn deall yr anawsterau roeddynt yn eu hwynebu yn yr ysgol; roedd hyn yn gymwys hefyd i blant o genhedloedd gwahanol a oedd yn siarad mwy nag un iaith. Roedd yr Uwch Reolwr yn falch iawn o'r gwasanaeth gwych a oedd yn cael ei ddarparu gan y gwasanaeth Sipsiwn/teithwyr a Saesneg fel iaith Ychwanegol a oedd yn mynd y tu hwnt i'r ysgol yn cynorthwyo gydag apwyntiadau iechyd, er enghraifft. Yn Sir y Fflint, roedd 43 o ieithoedd yn cael eu siarad ac roedd cymorth yn cael ei ddarparu yn yr ysgolion ar gyfer y disgyblion hyn.

Cyfeiriodd Mrs Lynn Bartlett at dudalen 35 yn yr adroddiad, Tabl 6: (Absenoldeb Cyson) a dywedodd mai'r rhain oedd y rhieni a'r disgyblion y dylid canolbwyntio fwyaf arnynt. Dywedodd y Prif Swyddog nad oedd gosod pwysau ar ysgolion yn helpu'r sefyllfa ac roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod hyn

bellach. Er mwyn atal absenoldebau, roedd Arolygwyr Estyn yn datgan bod angen deall y broblem mewn ysgolion.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr Hytch ynglŷn ag absenoldeb cyson, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr mai'r ffigur a gafodd ei ddyfynnu oedd canran yr holl absenoldebau a oedd yn cael eu hystyried yn absenoldebau cyson.

Gofynnodd y Cynghorydd Geoff Collett sut roedd canran absenoldebau yn cael ei diffinio. Cadarnhawyd mai'r diffiniad oedd presenoldeb o dan 80%. Gofynnodd y Cynghorydd Ian Smith sut byddai un diwrnod yn cael ei ddehongli, a chadarnhawyd y byddai'n cael ei ddangos fel dau sesiwn (bore a phrynhawn) gydag un wythnos yn cyfateb i 10 absenoldeb.

Gofynnodd Mrs Stark pryd byddai disgwyl i'r mater hwn ddod yn ôl gerbron y pwyllgor. Cadarnhaodd y Prif Swyddog fod data yn cael eu casglu bob blwyddyn ond gellid cyflwyno adroddiad interim gerbron y Pwyllgor ym mis Medi a gellid cynnwys manylion am absenoldebau cyson, adolygu ac archwilio, gwella'r gwasanaeth, cymorth i ysgolion ac iechyd meddwl a lles.

Cafodd yr argymhelliad a amlinellwyd yn yr adroddiad ei gynnig gan y Cynghorydd Kevin Hughes a'i eilio gan y Cynghorydd Gladys Healey.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi'r data presenoldeb ar gyfer ysgolion Sir y Fflint a'r camau a gymerwyd gan swyddogion i gynorthwyo ysgolion i wella lefelau ymgysylltu; a
- (b) Bod adroddiad interim yn dod gerbron y pwyllgor ym mis Medi i gynnwys manylion am absenoldebau cyson, adolygu ac archwilio, gwella'r gwasanaeth, cymorth i ysgolion ac iechyd meddwl a lles.

44. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD A OEDD YN BRESENNOL

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 3.38 pm)

.....
Cadeirydd